Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

**Ymateb i Ymgynghoriad / Consultation Response**

| | |
|---|---|
| **Enw / Name:** | Claire Morgan |
| **Rôl / Role:** | Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru |
| **E-bost / Email:** | Prif-arolygydd@estyn.llyw.cymru |
| **Rhif Ffôn / Tel No:** | 029 2044 6446 |
| | |
| **Dyddiad / Date:** | 26 Hydref 2021 |
| **Pwnc / Subject:** | **Defnyddio Dangosyddion a Cherrig Milltir Cenedlaethol i fesur cynnydd ein Cenedl** |

**Gwybodaeth gefndir am Estyn**

Estyn yw Swyddfa Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru. Fel corff y Goron, mae Estyn yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru.

Prif nod Estyn yw codi safonau a gwella ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Caiff hyn ei nodi yn Neddf Dysgu a Sgiliau 2000 a Deddf Addysg 2005 yn bennaf. Wrth gyflawni ei swyddogaethau, mae'n rhaid i Estyn ystyried:

- Ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Y graddau y mae addysg a hyfforddiant yn bodloni anghenion dysgwyr;
- Y safonau addysgol a gyflawnir gan ddarparwyr addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth y darparwyr addysg a hyfforddiant hynny;
- Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol dysgwyr; a'r
- Cyfraniad a wneir at les dysgwyr.

Mae cylch gwaith Estyn yn cynnwys (ond nid yn unig) meithrinfeydd a lleoliadau nas cynhelir, ysgolion cynradd, ysgolion uwchradd, ysgolion annibynnol, unedau cyfeirio disgyblion, addysg bellach, dysgu oedolion yn y gymuned, gwasanaethau addysg llywodraeth leol, dysgu yn y gwaith, ac addysg a hyfforddiant athrawon.

Gall Estyn roi cyngor i'r Senedd Cymru ar unrhyw fater sy'n gysylltiedig ag addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Er mwyn cyflawni rhagoriaeth i ddysgwyr, mae Estyn wedi pennu tri amcan strategol:

- Darparu atebolrwydd i ddefnyddwyr gwasanaeth ar ansawdd a safonau addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Llywio datblygiad polisi cenedlaethol gan Lywodraeth Cymru;
- Meithrin gallu i wella'r system addysg a hyfforddiant yng Nghymru.

Nid yw'r ymateb hwn yn gyfrinachol.

**Ymateb**

**Cyflwyniad**

Rydym yn gefnogwyr cadarn gwella lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru a'r ddeddfwriaeth arloesol, ar ffurf Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Rydym yn cytuno y bydd gosod cerrig milltir cenedlaethol yn erbyn y dangosyddion lles yn helpu ysgogi gweithredu ar y cyd, yn ogystal â helpu deall cynnydd tuag at gyflawni'r nodau lles.

Rydym yn cefnogi'r don gyntaf o gerrig milltir cenedlaethol yn yr wyth maes arfaethedig sydd wedi eu cynnwys yn yr ymgynghoriad hwn, ac wedi nodi nifer o ystyriaethau o dan gwestiynau'r ymgynghoriad. Yn unol â'r cais, rydym hefyd yn cynnig ystyriaethau ar y newidiadau i'r set dangosyddion. Yn gryno, dyma rai o'n hawgrymiadau allweddol:

- Credwn y dylai'r garreg filltir genedlaethol arfaethedig ar gyfer dangosydd Rhif 5 fod yn fwy uchelgeisiol. Teimlwn y dylai'r dangosydd ymwneud â chyfran y plant sydd â llai na **thri** ymddygiad iach o ran ffordd o fyw, gan y bydd hyn yn sicrhau bod rhaid i o leiaf un o'r ddau ymddygiad fod yn gysylltiedig â gordewdra.
- Rydym yn gefnogol i'r garreg filltir genedlaethol i gyflawni allyriadau nwyon tŷ gwydr sero-net erbyn 2050 (Rhif 41). Rydym yn meddwl y byddai'n ddefnyddiol sefydlu targed allyriadau interim (yn unol â charreg filltir Rhif 6 ar gyfer ymddygiadau iach o ran ffordd o fyw) ar gyfer 2035.
- O ran y targed i gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 (Rhif 39), rydym yn nodi pwysigrwydd Cyfrifiad 2021 a'r ffaith fod disgwyl y bydd y data ar y Gymraeg ar gael erbyn mis Mawrth 2023. Bryd hynny, bydd yn fuddiol diweddaru'r amcanestyniad a'r taflwybr i filiwn o siaradwyr.
- Mae angen sicrhau nad yw ffocws ar gerrig milltir cenedlaethol yn cuddio cynnydd (neu ddiffyg cynnydd) ar lefel leol. Gall anghydraddoldeb lleol neu gynnydd gwael gael eu cuddio gan gyfartaledd cadarnhaol cyffredinol. Felly, bydd angen gosod cerrig milltir 'lleol' yn ogystal â 'chenedlaethol'.
- Yn aml, 'mae'r hyn sy'n cael ei fesur yn cael ei wneud'. Yn genedlaethol, mae angen gwirio, wrth i'r prosiect hwn barhau, beth sydd ddim yn cael ei fesur, ac a yw gormod o ffocws ar fesur y dangosyddion yn cael effaith negyddol ar y rhai nad ydynt yn cael eu mesur. Bydd angen myfyrio'n ymwybodol ar hyn yn achlysurol.
- O ran cynnwys dangosydd cenedlaethol ar ddull teithio, rydym yn awgrymu y byddai'n ddefnyddiol cynnwys targed am gyfran y plant sy'n cerdded / beicio / mynd ar sgwter, ac ati, i'r ysgol, ac rydym hefyd yn awgrymu targed sy'n ymwneud ag ansawdd yr aer.
- O ran dangosydd cenedlaethol ar safon ofynnol ar gyfer bywyd digidol, fe fyddem ni'n sicr ddim yn dymuno diystyru'r mater pwysig hwn, ond yn meddwl y byddai'n eithriadol o anodd diffinio safon ofynnol ar gyfer bywyd digidol mewn ffordd a fydd yn parhau i fod yn berthnasol yn 2050, o ystyried pa mor gyflym y mae technoleg wedi symud yn y 29 mlynedd ddiwethaf.
- Efallai byddai Llywodraeth Cymru yn dymuno ystyried carreg filltir ychwanegol i'r set o ddangosyddion cenedlaethol sy'n ymwneud ag iechyd meddwl plant a phobl ifanc.

**Cwestiynau'r ymgynghoriad**

# 1. Cerrig milltir cenedlaethol

C1: Ydych chi'n cytuno â'r 2 garreg filltir genedlaethol arfaethedig ar gyfer dangosydd Rhif 8: Canran yr oedolion sydd â chymwysterau ar lefelau gwahanol y Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol?

Ydym ☒

Nac ydym ☐

a) Os "ydym", ond yr hoffech chi weld rhai newidiadau, beth fyddech chi'n ei newid ynglŷn â'r cerrig milltir cenedlaethol arfaethedig?

| |
|---|
| Mae Carreg Filltir 1 (mae 75% o oedolion o oedran gweithio yng Nghymru wedi cymhwyso i lefel 3 neu'n uwch) yn darged defnyddiol. Fodd bynnag, er mwyn ennill cymwysterau lefel 3, mae angen llwybrau dilyniant priodol sy'n galluogi dinasyddion i gyrraedd trothwy lefel 3. Mae'n bwysig sicrhau nad yw canolbwyntio ar drothwy lefel 3 yn lleihau pwysigrwydd neu argaeledd cymwysterau lefel is sy'n gweithredu fel camau dilyniant tuag at drothwy lefel 3.<br><br>O ystyried yr ystod eang iawn mewn lefelau presennol o oedolion heb gymwysterau, bydd Carreg Filltir 2 (oedolion o oedran gweithio heb unrhyw gymwysterau <5% ym mhob awdurdod lleol yng Nghymru) yn cynrychioli graddfa wahanol iawn o her i wahanol awdurdodau lleol. Bydd yn bwysig sicrhau bod targedau lleol yn cael eu gosod, ac adnoddau yn cael eu dyrannu'n briodol, i sicrhau bod pob awdurdod lleol yn gwella, ac nad yw ffigur cenedlaethol yn cuddio anghydraddoldeb ar lefel leol. |

b) Os "nac ydym", rhowch dystiolaeth ar gyfer beth fyddai'n garreg filltir genedlaethol fwy addas i Gymru.

| |
|---|
| |

C2: Ydych chi'n cytuno â'r garreg filltir genedlaethol arfaethedig ar gyfer dangosydd Rhif 22 Canran y bobl mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant (mewn gwahanol grwpiau oedran)?

Ydym ☒

Nac ydym ☐

a) Os "ydym", ond yr hoffech chi weld rhai newidiadau, beth fyddech chi'n ei newid ynglŷn â'r garreg filltir genedlaethol arfaethedig?

| |
|---|
| Mae hon yn garreg filltir briodol. Ar y cyd â'n hateb yng nghwestiwn 1, bydd yn bwysig nad yw ffigur cenedlaethol yn cuddio anghydraddoldeb ar lefel leol, a bod targedau lleol priodol yn cael eu gosod, adnoddau'n cael eu dyrannu, a chamau gweithredu yn cael eu cwblhau. |

b) Os “nac ydym”, rhowch dystiolaeth ar gyfer beth fyddai’n garreg filltir genedlaethol fwy addas i Gymru.

| |
|---|
| |

C3: Ydych chi’n cytuno â’r garreg filltir genedlaethol arfaethedig ar gyfer dangosydd Rhif 21 Canran y bobl mewn cyflogaeth?

Ydym ☒

Nac ydym ☐

a) Os “ydym”, ond yr hoffech chi weld rhai newidiadau, beth fyddech chi’n ei newid ynglŷn â’r garreg filltir genedlaethol arfaethedig?

| |
|---|
| Mae carreg filltir sy’n gymharol â gweddill y Deyrnas Unedig yn briodol yma, a chroesewir y ffocws ar grwpiau nad oes cynrychiolaeth ddigonol ohonynt yn y farchnad lafur ar hyn o bryd. |

b) Os “nac ydym”, rhowch dystiolaeth ar gyfer beth fyddai’n garreg filltir genedlaethol fwy addas i Gymru.

| |
|---|
| |

C4: Ydych chi’n cytuno â’r garreg filltir genedlaethol arfaethedig ar gyfer dangosydd Rhif 17 – Cydraddoldeb o ran Cyflog – ar gyfer rhywedd, ethnigrwydd ac anabledd?

Ydym ☒

Nac ydym ☐

a) Os “ydym”, ond yr hoffech chi weld rhai newidiadau, beth fyddech chi’n ei newid ynglŷn â’r garreg filltir genedlaethol arfaethedig?

| |
|---|
| Ni awgrymir unrhyw newidiadau. |

b) Os “nac ydym”, rhowch dystiolaeth ar gyfer beth fyddai’n garreg filltir genedlaethol fwy addas i Gymru.

| |
|---|
| |

C5: Ydych chi’n cytuno â’r garreg filltir genedlaethol arfaethedig ar gyfer dangosydd Rhif 5 Canran y plant sydd â llai na 2 ymddygiad iach o ran ffordd o fyw?

Ydym ☐

Nac ydym ☒

a) Os “ydym”, ond yr hoffech chi weld rhai newidiadau, beth fyddech chi’n ei newid ynglŷn â’r garreg filltir genedlaethol arfaethedig?

Rydym yn cytuno ei bod yn ddefnyddiol cynnwys carreg filltir genedlaethol sy'n ymwneud ag ymddygiadau iach o ran ffordd o fyw plant. Fodd bynnag, rydym yn meddwl bod angen iddi fod yn fwy uchelgeisiol.
Mae'r dangosydd a gynigir ar gyfer y garreg filltir eisoes wedi'i fodloni gan 88% o blant. Nid yw dewis carreg filltir y mae 88% o blant eisoes yn ei bodloni ar gyfer cyfnod hyd at 2050 yn ddigon uchelgeisiol, yn enwedig o ystyried yr heriau rydym yn eu gweld ar hyn o bryd yn iechyd oedolion yng Nghymru sy'n ymwneud â'r pedwar ymddygiad iach o ran ffordd o fyw yn gysylltiedig â'r dangosydd.

Caiff dau o'r pedwar ymddygiad eu bodloni gan lawer o blant yn barod – doedd 81% o blant byth yn yfed alcohol / anaml yr oeddent yn yfed alcohol, a doedd 94% o blant byth yn ysmygu.

Fodd bynnag, dim ond 48% o blant oedd yn bwyta ffrwythau neu lysiau bob dydd, a dim ond 18% o blant oedd yn bodloni canllawiau gweithgarwch corfforol. Mae cysylltiadau achosol cryf rhwng y ddau ymddygiad hyn a gordewdra a phroblemau'n gysylltiedig ag iechyd. Os yw Cymru am ostwng lefelau gordewdra yn y boblogaeth oedolion yn y dyfodol, mae angen i gyfran uwch o lawer o blant fwyta bwyd iach a bod yn fwy egnïol.

Felly, rydym yn teimlo y dylai'r dangosydd ymwneud â chyfran y plant sydd â llai na thri ymddygiad iach o ran ffordd o fyw, gan y bydd hyn yn sicrhau bod yn rhaid i o leiaf un o'u dau ymddygiad ymwneud â gordewdra.

Ar hyn o bryd, mae gan dros 50% o blant lai na thri ymddygiad iach, felly bydd y dangosydd hwn yn cael mwy o effaith o ran gosod cerrig milltir uchelgeisiol yn ei erbyn.

b) Os "nac ydym", rhowch dystiolaeth ar gyfer beth fyddai'n garreg filltir genedlaethol fwy addas i Gymru.

C6: Ydych chi'n cytuno â'r garreg filltir genedlaethol arfaethedig ar gyfer dangosydd Rhif 14 Ôl-troed Ecolegol Cymru?

Ydym ☒

Nac ydym ☐

a) Os "ydym", ond yr hoffech chi weld rhai newidiadau, beth fyddech chi'n ei newid ynglŷn â'r garreg filltir genedlaethol arfaethedig?

Ydym, rydym yn cytuno â'r garreg filltir ac yn cytuno ag ailenwi'r mesur hwn yn 'Ôl-troed Byd-eang Cymru' i adlewyrchu Cymru gan ddefnyddio ei chyfran deg yn unig o adnoddau'r ddaear.

b) Os "nac ydym", rhowch dystiolaeth ar gyfer beth fyddai'n garreg filltir genedlaethol fwy addas i Gymru.

C7: Ydych chi'n cytuno â mabwysiadu'r targed allyriadau nwyon tŷ gwydr sero-net presennol fel carreg filltir genedlaethol?

Ydym ☒

Nac ydym ☐

b) Os "nac ydym", rhowch dystiolaeth ar gyfer beth fyddai'n garreg filltir genedlaethol fwy addas i Gymru.

| |
|---|
| Rydym yn cytuno â'r garreg filltir genedlaethol i gyflawni targed allyriadau nwyon tŷ gwydr sero-net erbyn 2050. Rydym yn meddwl y byddai'n ddefnyddiol sefydlu targed allyriadau interim (yn unol â charreg filltir 6 ar gyfer ymddygiadau iach o ran ffordd o fyw) ar gyfer 2035. |

C8: Ydych chi'n cytuno y dylid mabwysiadu targed presennol Cymraeg 2050 i gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 fel carreg filltir genedlaethol?

Ydym ☒

Nac ydym ☐

b) Os "nac ydym", rhowch dystiolaeth ar gyfer beth fyddai'n garreg filltir genedlaethol fwy addas i Gymru.

Sylwadau mewn perthynas ag "Ydym":

Rydym yn cytuno â'r garreg filltir i fabwysiadu targed presennol Cymraeg 2050. Mae Cymraeg 2050: ein cynlluniau ar gyfer 2021 i 2026 (Llywodraeth Cymru, 2021) yn nodi'n glir y camau gweithredu a'r cynnydd sydd ei angen i gyflawni'r targed uchelgeisiol hwn. Er enghraifft, mae'n dangos sut bydd cydweithio â phartneriaid amrywiol fel y Coleg Cymraeg Cenedlaethol a'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, yn cael effaith o ran datblygu medrau dysgwyr wrth gaffael y Gymraeg.

Hefyd, mae'r cynllun yn datgan y bydd sefydlu 46 Cylch Meithrin Cymraeg arall (y targed oedd 40) yn cefnogi'r duedd yng nghanran y plant sy'n symud o leoliadau'r blynyddoedd cynnar i ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg (86% 2015-2016 – 90% 2018-2019). Fodd bynnag, yn gyffredinol, mae cyflawni'r targedau ar gyfer y gweithlu addysg yn gyffredinol, wedi bod yn fwy heriol. Roedd 2,789 o athrawon cynradd cyfrwng Cymraeg yn ystod blwyddyn academaidd 2019 i 2020 o gymharu â'r targed yn Cymraeg 2050 ar gyfer 2021, sef 3,100, sy'n ddiffyg o 311 (10.0%). Yn 2019 i 2020, roedd 2,339 o athrawon uwchradd yn addysgu yn Gymraeg o gymharu â'r targed, sef 2,800 ar gyfer 2021, sy'n ddiffyg o 500 (16.5%).

Mae'r cynllun Cymraeg 2050 yn nodi hefyd: 'Mae pandemig COVID-19 wedi golygu y bu'n rhaid i nifer o'n hymyraethau ni a'n partneriaid newid neu ddod i ben, ac y bu'n rhaid creu ymyraethau newydd. Nid ydym eto yn gwybod beth fydd holl oblygiadau'r pandemig ar gyrraedd targedau Cymraeg 2050, ond rydyn ni wedi bod yn canolbwyntio ar sawl agwedd gan gynnwys ym maes addysg, defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg, a gwead economaidd-gymdeithasol cymunedau lle mae'r Gymraeg yn iaith gymunedol'. Yn gyfochrog â hyn, fel rhan o alwadau ac ymweliadau ymgysylltu Estyn â darparwyr yn ystod 2020-2021, rydym yn cydnabod bod ymarferwyr wedi addasu eu darpariaeth mewn amgylchiadau heriol i weddu orau i anghenion dysgwyr, yn enwedig tra'n cyflwyno gweithgareddau i gynorthwyo dysgwyr o gartrefi di-Gymraeg i ddatblygu eu medrau yn Gymraeg. Gwaith ymgysylltu: Diweddariad ar y sector cynradd - hydref 2020. Fodd

bynnag, mae'n rhy gynnar i fesur effaith y pandemig ar fedrau dysgwyr o ran caffael y Gymraeg.

Yn sgil cyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru yn 2022, bydd arweinwyr ac ymarferwyr yn ymgorffori pedwar diben y cwricwlwm, gyda'r nod i gynorthwyo dysgwyr i gael mwy o gyfle i ddatblygu eu medrau Cymraeg ymhellach mewn iaith gyfoethog a gweithgareddau integredig ar draws y chwe maes dysgu a phrofiad. Mae'r egwyddorion dilyniant a amlinellir yn y cod dilyniant yn hollbwysig wrth fesur cynnydd dysgwyr yn y Gymraeg. Fodd bynnag, mae angen atgyfnerthu darpariaeth addas i ddysgwyr barhau â'u haddysg mewn darparwyr lleol trwy gyfrwng y Gymraeg yn y sector ôl-16, fel yr amlinellir yn ein hadroddiad Partneriaethau ôl-16: Cynllunio a darpariaeth ar y cyd rhwng ysgolion, a rhwng ysgolion a cholegau (Ionawr, 2021).  Mae'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn nodi yn ei Gynllun Gweithredu Addysg Bellach a Phrentisiaethau cyfrwng Cymraeg am y sector hwn: 'Ni fu'r un buddsoddiad a phwyslais strategol ar wneud cynnydd yn y sectorau ôl-orfodol o gymharu â'r sector Addysg Uwch, er enghraifft'.

Bydd y Cod Trefniadaeth Ysgolion (Llywodraeth Cymru, 2018) yn hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg gan ddysgwyr o fannau cychwyn gwahanol ym mhob ysgol ledled Cymru. Bydd hyn yn cynorthwyo darparwyr i ddatblygu eu lleoliadau i hyrwyddo 'Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu'. (Dangosydd 37).

Yn unol â'r ddogfen Canllawiau ar Gynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (Llywodraeth Cymru, 2021), mae pob awdurdod lleol yn bwriadu cyflwyno cynllun 10 mlynedd a fydd yn ymdrechu i wneud 'pob dysgwr yn un o bob miliwn' (tud.2), a gobeithio y bydd yn cyfrannu'n gyson tuag at gyflawni carreg filltir 9.

Cynhaliwyd Cyfrifiad 2021 yng Nghymru ym mis Mawrth 2021 ac mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol (sy'n gyfrifol am y Cyfrifiad yng Nghymru a Lloegr) yn bwriadu cyhoeddi holl ddata Cyfrifiad 2021 o fewn 24 mis i'r Cyfrifiad. Felly, disgwylir y bydd y data ar y Gymraeg ar gael erbyn mis Mawrth 2023. Bryd hynny, bydd modd diweddaru'r amcanestyniad a'r taflwybr i filiwn o siaradwyr.

C9: Sut ydych chi'n meddwl y dylem ni gyfleu'r cerrig milltir cenedlaethol a'r dangosyddion lles cenedlaethol i bobl a chymunedau Cymru?

- Defnyddio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol – 'canllaw ar hanfodion' (3ydd argraffiad) i hyrwyddo dangosyddion lles cenedlaethol a chynnwys y cyrff cyhoeddus sydd wedi eu cynnwys yn y Ddeddf wrth gyfleu'r cerrig milltir a'r dangosyddion hyn.
- Cysylltu â chyhoeddusrwydd ynghylch COP26 yn Glasgow a Nodau Datblygu Cynaliadwy y Cenhedloedd Unedig.
- Elwa ar frwdfrydedd sefydliadau ieuenctid, ysgolion a sefydliadau addysg bellach ac uwch (ar gyfer hyrwyddo materion lles ac amgylcheddol). Paratoi fideos byr i athrawon / arweinwyr cymunedol eu defnyddio.
- Trwy rôl Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol ar gyfer Cymru.
- Ceisio cydweithrediad a phartneriaeth ar draws y sector cyhoeddus a gyda'r sector preifat.

C10: Rydym yn awyddus i gasglu tystiolaeth ar effeithiau a chyfleoedd posibl cyflawni pob un o'r cerrig milltir cenedlaethol, ac yn benodol, unrhyw ddibyniaeth rhyngddynt. Er enghraifft, gallai fod canlyniadau anfwriadol i wneud cynnydd tuag at gyflawni carreg filltir

genedlaethol ar garreg filltir genedlaethol arall, neu gyfleoedd i gyflawni manteision ehangach rhwng cerrig milltir cenedlaethol. Defnyddiwch y gofod hwn i roi tystiolaeth o'r cysylltiadau a'r cyd-ddibyniaethau hyn.

| |
|---|
| Mae angen sicrhau nad yw ffocws ar gerrig milltir cenedlaethol yn cuddio cynnydd (neu ddiffyg cynnydd) ar lefel leol. Gall annhegwch lleol neu gynnydd gwael gael eu cuddio gan gyfartaledd cadarnhaol cyffredinol. Felly, bydd angen gosod cerrig milltir 'lleol' yn ogystal â 'chenedlaethol'. Bydd angen gwahaniaethu cynllunio yn briodol i roi cyfrif am hynny.<br><br>Yn aml, 'mae'r hyn sy'n cael ei fesur yn cael ei wneud'. Yn genedlaethol, mae angen gwirio, wrth i'r prosiect hwn barhau, beth sydd ddim yn cael ei fesur, ac a yw gormod o ffocws ar fesur y dangosyddion yn cael effaith negyddol ar y rhai nad ydynt yn cael eu mesur. Bydd angen myfyrio'n ymwybodol ar hyn o bryd i'w gilydd. |

# 2. Dangosyddion cenedlaethol

Dull teithio
C11: Ydych chi'n meddwl y dylid ychwanegu dangosydd ar ddull teithio at y set dangosyddion cenedlaethol presennol?

Ydym ☒

Nac ydym ☐

a) Os "Ydym", rhowch y syniad(au) neu'r cysyniad(au) yr hoffech i'r dangosydd ei gofnodi / eu cofnodi?

| |
|---|
| Rydym yn nodi Llwybr Newydd: Strategaeth Drafnidiaeth Newydd i Gymru 2021: strategaeth lawn (llyw.cymru) – mae sector 5.5 yn cyfeirio at ddata ar ddulliau a sector. Dywed y ddogfen y bydd angen i Lywodraeth Cymru adolygu targedau a mesurau yn gyson, o ystyried y pandemig a'r ansicrwydd ynglŷn â sut bydd hyn yn effeithio ar batrymau teithio yn y tymor hir.<br><br>Rydym yn awgrymu y byddai cynnwys targed sy'n ymwneud ag ansawdd yr aer (e.e. lefelau NO2) yn well na tharged am ddull teithio (gweler WG35619 (llyw.cymru).<br><br>Fodd bynnag, rydym yn meddwl y byddai'n ddefnyddiol cynnwys targed am gyfran y plant sy'n cerdded / beicio / mynd ar sgwter i'r ysgol. |

b) Os "Nac ydym", pam na fyddai hyn yn ddangosydd priodol?

| |
|---|
| |

c) Ydych chi'n ymwybodol o ffynhonnell ddata/ffynonellau data y gellid ei defnyddio/eu defnyddio i fesur y dangosydd hwn?

| |
|---|
| |

Y safon ofynnol ar gyfer bywyd digidol

C12: Ydych chi'n meddwl y dylid ychwanegu dangosydd ar y safon ofynnol ar gyfer bywyd digidol at y set dangosyddion presennol?

Ydym ☒

Nac ydym ☐

a) Os "Ydym", rhowch y syniad(au) neu'r cysyniad(au) yr hoffech i'r dangosydd ei gofnodi / eu cofnodi?

| |
|---|
| Roedd diffyg mynediad at y rhyngrwyd / adnoddau digidol yn broblem i lawer o ddysgwyr yn ystod y pandemig – e.e. mynediad gwael i'r rhyngrwyd, cysylltiadau band eang / wi-fi symudol araf. Byddai safon ofynnol ar gyfer bywyd digidol o gymorth i ganolbwyntio'n barhaus ar y mater hwn.<br><br>Fodd bynnag, rydym yn meddwl bod hyn yn anodd iawn o ystyried bod y ffocws ar 2050, sef 29 mlynedd i ffwrdd. Ystyriwch pa mor bell y mae technoleg wedi symud yn y 29 mlynedd ddiwethaf – doedd Google ddim yn bodoli 29 mlynedd yn ôl, a doedd rhyngrwyd band eang yn y Deyrnas Unedig ddim yn bodoli chwaith. Dydy neb yn gwybod sut bydd technoleg yn newid dros y 29 mlynedd nesaf, felly byddai'n eithriadol o anodd diffinio safon ofynnol ar gyfer bywyd digidol mewn ffordd a fydd yn parhau i fod yn berthnasol yn 2050. Nid yw hynny'n diystyru'r mater, wrth gwrs, dim ond yn cydnabod efallai na fydd mesurau dros gyfnod amser mor estynedig yn fuddiol. |

b) Os "Nac ydym", pam na fyddai hyn yn ddangosydd priodol?

| |
|---|
| |

c) Ydych chi'n ymwybodol o ffynhonnell ddata/ffynonellau data y gellid ei defnyddio/eu defnyddio i fesur y dangosydd hwn?

| |
|---|
| |

Dangosydd 33 – Canran yr anheddau sydd â pherfformiad digonol o ran ynni (mesurwyd gan ddefnyddio'r Weithdrefn Asesu Safonol)

C13: Ydych chi'n meddwl y dylid newid dangosydd 33 "canran yr anheddau sydd â pherfformiad ynni digonol"?

Ydym ☐

Nac ydym ☐

a) Os "Ydym" yw'r ateb i gwestiwn 12, rhowch y syniad(au) neu'r cysyniad(au) yr hoffech i'r dangosydd ei gofnodi / eu cofnodi?

| |
|---|
| Nid ydym yn teimlo ein bod mewn sefyllfa dda i gynnig barn ar hyn. |

b) Os "Nac ydym" yw'r ateb i gwestiwn 11, pam na fyddai hyn yn ddangosydd priodol?

| |
|---|
| |

c) Ydych chi'n ymwybodol o ffynhonnell ddata/ffynonellau data y gellid ei defnyddio/eu defnyddio i fesur y dangosydd hwn?

| |
|---|
| |

Bylchau ychwanegol yn y set dangosyddion cenedlaethol

C14: Byddem ni hefyd yn croesawu'ch barn ar unrhyw fylchau pellach rydych chi'n teimlo y gallai pandemig COVID-19 fod wedi eu hamlygu yn y ffordd rydym yn mesur cynnydd tuag at ein nodau lles?

Os hoffech chi gynnig dangosydd ychwanegol, rhowch y wybodaeth ganlynol:

- Beth yw enw'r dangosydd arfaethedig?
- Beth yw'r ffynhonnell ddata ar gyfer y dangosydd hwn?
- Esboniwch pam mai'r dangosydd hwn sy'n mesur lles Cymru orau
- Pa nodau lles y mae'r dangosydd yn effeithio arnynt yn uniongyrchol?

| |
|---|
| Efallai byddai Llywodraeth Cymru yn dymuno ystyried carreg filltir yn ymwneud ag iechyd meddwl plant a phobl ifanc.<br><br>Gallai carreg filltir ymwneud ag un dangosydd neu fwy o'r arolwg ymddygiad iechyd myfyrwyr bob dwy flynedd a gynhelir gan y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion, fel sgôr fer Lles Meddwl Warwick-Caeredin, UCLA (Prifysgol California, Los Angeles), sgôr unigrwydd 3-eitem a sgôr SDQ (Holiadur Cryfderau ac Anawsterau). Mae data gwaelodlin a hanesyddol eisoes o'r arolwg hwn a fyddai'n cefnogi gosod carreg filltir. |

C15: Hoffem wybod beth yw eich barn ar yr effeithiau y byddai'r polisi hwn yn eu cael ar y Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Beth ydych chi'n meddwl fyddai'r effeithiau? Sut gellid cynyddu'r effeithiau cadarnhaol, neu liniaru effeithiau negyddol?

| |
|---|
| Bydd y cerrig milltir cenedlaethol arfaethedig a amlinellir yn glir yn y polisi hwn yn cefnogi'r Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal. Bydd y cyfleoedd strategol yn arwain y cynllunio ymhellach i sicrhau tegwch i bawb rhwng y ddwy iaith. |

C16: Esboniwch hefyd sut rydych chi'n credu y gellid ffurfio neu newid y polisi arfaethedig er mwyn cael effeithiau cadarnhaol neu effeithiau cadarnhaol cynyddol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, a dim effeithiau niweidiol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

| |
|---|
| Mae'r polisi arfaethedig yn cefnogi'r cyfleoedd mewn dull strategol a chytbwys. Nid oes tystiolaeth y bydd yn cael effaith gadarnhaol na negyddol ar y Gymraeg na'r Saesneg. |

C17: Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych chi unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi mynd i'r afael â nhw yn benodol, defnyddiwch y gofod hwn i adrodd amdanynt:

| |
|---|
| |

Gallai ymatebion i ymgynghoriadau gael eu cyhoeddi. I gadw eich ymateb yn ddienw (yn cynnwys cyfeiriadau e-bost), ticiwch y blwch.

Cadwch fy ymateb yn ddienw ☐